

# DYDD MIWSIG CYMRU | WELSH LANGUAGE MUSIC DAY

## SUT GALL DY YSGOL DI GYMRYD RHAN YN DYDD MIWSIG CYMRU?

Mae Dydd Miwsig Cymru yn ddigwyddiad blynyddol i ddathlu pob math o fiwsig Cymraeg – o roc, pop, gwerin, i electronica, hip hop a phopeth arall dan haul. Mae'r diwrnod yn annog pobl o bob oed i ddarganfod y sîn fywiog o fiwsig Cymraeg.

Ddydd Gwener, 7 Chwefror 2025, yw'r degfed Dydd Miwsig Cymru, felly beth am ymuno yn y dathliadau gyda dy ysgol? Mae gwranddo ar fiwsig Cymraeg yn ffordd wych o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan i'r dosbarth, a gall fod yn ffordd i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg ddod yn nes at fyd Cymraeg eu plentyn mewn ffordd hwyliog a hygyrch. Mae miwsig i bawb. Mae rhai syniadau wedi'u cynnwys isod ar sut i gymryd rhan a sut gall disgyblion fwynhau miwsig yn eu cartrefi.

### BETH ALL FY YSGOL EI WNEUD?

There are plenty of ways for schools to get involved on Friday 10 February to celebrate the tenth Dydd Miwsig Cymru:


1) **Ymuno â'n fideo cyd-ganu cenedlaethol.** Dyma ffordd hwyliog i'r disgyblion ddysgu a dathlu cerddoriaeth a diwylliant Cymraeg. Sut i gymryd rhan:


- Dewis un o'r caneuon Cymraeg rydyn ni wedi'u hawgrymu.
- Recordio disgyblion yn canu neu'n syncio gwefusau â'r gân.
- Rhannu dy glipiau gyda ni i fod yn rhan o fideo dathlu sy'n cynnwys ysgolion ledled Cymru.
- Rhannu'r fideo ar dy sianeli cyfryngau cymdeithasol ar Ddydd Miwsig Cymru gan ddefnyddio #DyddMiwsigCymru.

Bydd y fideo terfynol yn cael ei rannu'n eang i dynnu sylw at ysbryd anhygoel ysgolion Cymru ar Ddydd Miwsig Cymru.

Opsiynau cân:

- Sywel Nyw - Amser Parti
- Yws Gwynedd - Sebona Fi





2) **Gwrando** ar rai o restrau chwarae Dydd Miwsig Cymru ar [Spotify](#), [YouTube](#) neu raglen [Miwsig y Siarter Iaith](#) ar BBC Sounds

3) **Canu** ar y cyd i draciau [Seren a Sbarc Carioci](#)

4) **Creu** cân Gymraeg gan ddefnyddio ein [awgrymiadau am weithgareddau](#).


5) **Addysgu'r** disgyblion am hanes cerddoriaeth Gymraeg gan ddefnyddio'r [gweithgareddau](#) rydyn ni'n eu hawgrymu.

6) **Dathlu** gyda disgo Dydd Miwsig Cymru i ddisgyblion, rhieni a staff yn ystod amser cinio.

Rhannu sut rwyd ti'n dathlu Dydd Miwsig Cymru gyda ni. Anfona fanylion dy gynlluniau a dy weithgareddau i ddathlu Dydd Miwsig Cymru, neu postia neges ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod [#DyddMiwsigCymru](#) ac fe wnawn ni rannu dy neges gyda'n dilynwyr.

**MAE GANDDON NI HEFYD WEITHGAREDDAU HWYLIOG Y GALLI DI EU HARGRAFFU I DY HELPU I DDATHLU'R DIWRNOD YMA. MAE'R RHAIN YN CYNWYS:**

- Chwilair yn llawn geiriau sy'n ymwneud â miwsig.
- Taflenni cysylltu'r dotiau... pwy fydd yn cael eu datgelu ar y diwedd?
- Llyfr comig Seren a Sbarc ar gyfer Dydd Miwsig Cymru.
- Taflen liwio Seren a Sbarc i'w chwblhau wrth wrando ar eu rhestr chwarae



# NEGSEUON TEMPLED AR GYFER Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL:

CYMRAG	ENGLISH
Pop. Roc. Rap. R&B. Jazz. Hip hop. Mae #miwsig Cymraeg yn ffynnu, ac rydyn ni'n edrych ymlaen i'w ddathlu fel rhan o #DyddMiwsigCymru ddydd Gwener 7 Chwefror. Dilyna'r hwyl yn @Cymraeg	Pop. Rock. Rap. R&B. Jazz. Hip hop. Welsh language #miwsig is thriving, and we can't wait to celebrate it all for #DyddMiwsigCymru on Friday 7 February. Follow the fun at @Cymraeg
Mae ein disgyblion yn dysgu am hanes ac esblygiad cerddoriaeth Gymraeg heddiw i ddathlu #DyddMiwsigCymru.	Our students are exploring the history and evolution of Welsh language music today to celebrate #DyddMiwsigCymru.
I ddathlu #DyddMiwsigCymru fory, rydyn ni'n chwarae miwsig Cymraeg drwy'r dydd! Ymuna gyda ni! <a href="https://open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru">open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru</a>	To celebrate #DyddMiwsigCymru tomorrow, we're playing Welsh language music throughout the day! Join in! <a href="https://open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru">open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru</a>
Rydyn ni'n gwranddo ar diwns a #Miwsig Cymraeg i ddathlu #DyddMiwsigCymru. Beth am i ti wneud yr un peth?👇 <a href="https://open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru">@Miwsig_</a>	We're listening to Welsh language #Miwsig to help us celebrate #DyddMiwsigCymru. You can do the same👇 <a href="https://open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru">@Miwsig_</a>



## BRANDIO

Rydyn ni wedi creu celfwaith newydd sbon ar gyfer 2025 sydd ar gael i'w lawrlwytho [YMA](#).

Poster digidol: Rydyn ni hefyd wedi creu poster ar dy gyfer lle galli di fewnosod gwybodaeth am sut rwyd ti'n cymryd rhan yn Dydd Miwsig Cymru. Lawrlwytha nhw [YMA](#).

## CADWA MEWN CYSYLLTIAD

Dilyna ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru, pa fiwsig newydd sy'n cael ei ryddhau a sut i gymryd rhan.

Facebook [@Cymraeg](#)

X [@Cymraeg](#)

Instagram [@Cymraeg\\_welsh](#)

TikTok [@Cymraeg](#)

Youtube [@Cymraeg](#)

## BETH AM SGWRS?

Os wyt ti am gael cymorth i ddathlu Dydd Miwsig Cymru ac am gael y deunydd marchnata uchod, neu os oes gen ti unrhyw gwestiynau, cysyllta â Gwilym Hughes [gwilym.hughes@workingword.co.uk](mailto:gwilym.hughes@workingword.co.uk)

